Annwyl Gwsmer

**Newidiadau i Wasanaeth Allgymorth Symudol Rhyd-y-fro**
**Yn cael effaith ar Wasanaethau Symudol Caerau, Pen-y-waun ac Ystradfellte**

Rydym yn ysgrifennu i roi gwybod i chi, yn anffodus, yn dilyn ymddiswyddiad y postfeistr, bydd Swyddfa Bost Ystradfellte yn cau ddydd Mawrth 31 Mawrth 2026 am 12:00. Fodd bynnag, byddwn yn ailagor y gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn fel gwasanaeth symudol dros dro wrth i ni ddal i chwilio am ddatrysiad hirdymor.

Bydd y gwasanaeth symudol newydd yn dechrau ddydd Mawrth 7 Ebrill 2026 a chaiff ei redeg o'r tu allan i'w leoliad presennol yn Neuadd Eglwys y Santes Fair, Ystradfellte, Aberdâr, CF44 9JE gan bostfeistr Swyddfa Bost Rhyd-y-fro. Mae'r Gwasanaeth Symudol yn Swyddfa Bost Deithiol mewn cerbyd arbennig sy'n dod a gwasanaethau Swyddfa'r Post a chynhyrchion manwerth i gymunedau heb orfod dibynnu ar adeilad.

Er mwyn gallu cynnal y gwasanaeth Symudol newydd, bydd rhai newidiadau'n cael eu gwneud i oriau agor gwasanaethau Symudol Caerau a Phen-y-waun, sydd hefyd yn cael eu rhedeg gan y Postfeistr o Swyddfa BostRhyd-y-fro. Mae manylion y newidiadau hyn ar ddiwedd y llythyr hwn.

Rydym yn ymddiheuro am yr anhwylustod y gallai'r cau ei achosi. Gobeithiwn y bydd ein cwsmeriaid yn dal i ddefnyddio gwasanaethau Swyddfa'r Post. Mae manylion am ganghennau eraill Swyddfa'r Post yn yr ardal ar ddiwedd y llythyr hwn. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ganghennau ar ein gwefan, www.postoffice.co.uk/branch-finder.
Mae'r cyfathrebiad hwn yn unol â'n Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned. Mae darn ohono ar ddiwedd y llythyr hwn.

Mawr obeithiwn y byddwch yn cefnogi'r gwasanaeth symudol newydd hwn.

Yr eiddoch yn gywir,

*Fiona Shanahan*

**Fiona Shanahan**
**Rheolwraig Newidiadau'r Ardal**

Sut i gysylltu â ni:
comments@postoffice.co.uk
postofficeviews.co.uk
FREEPOST Your Comments

Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.
Registered Office: 100 Wood Street, London, EC2V 7ER.
Post Office and the Post Office logo are registered trademarks of Post Office Limited.

Postoffice.co.uk

# Manylion am y Gwasanaethau Symudol newydd

| Gwasanaeth Symudol Ystradfellte | Gwasanaethau |
|---|---|
| Y tu allan i Neuadd Eglwys y Santes Fair, Ystradfellte<br>Aberdâr<br>CF44 9JE | Bydd dewis o wasanaethau ar gael. |
| **Oriau Agor** | **Mynediad** |
| Iau: 13:00 – 14:00 | Mae gris i mewn i'r cerbyd symudol, ond mae tinbren electronig ar gael i hwyluso mynediad i ddefnyddwyr cadair olwyn a phobl ag anableddau |
| **Cyrraedd yno** | |
| Bydd modd parcio yn agos i'r lle y bydd y Cerbyd Symudol wedi ei barcio. | |

## Canghennau eraill yn lle Gwasanaeth Symudol Caerau

| Swyddfa Bost Croeserw | Gwasanaethau ar gael |
|---|---|
| 14 Heol y Frenhines<br>Croeserw<br>Port Talbot<br>Gorllewin Morgannwg<br>SA13 3SN | Yn cynnig gwasanaethau tebyg, yn ogystal â Threth Cerbydau. |
| **Oriau Agor** | **Mynediad** |
| Llun - Gwen: 09:00 – 17:00<br>Sad: 09:00 – 12:30<br>Sul: Ar Gau | Mae gris wrth fynedfa'r adeilad. |
| **Cyrraedd yno** | |
| Tua 1.1 milltir o Wasanaeth Symudol Caerau, ar hyd tir amrywiol ei natur. Mae modd parcio y tu allan i'r gangen ac mae trafnidiaeth gyhoeddus ar gael yn y cyffiniau. | |

| Swyddfa Bost Maesteg | Gwasanaethau |
|---|---|
| 139 Commercial Street<br>Maesteg<br>Pen-y-bont ar Ogwr<br>CF34 9DW | Yn cynnig gwasanaethau tebyg, ynghyd ag Arian Teithio mewn Ewros neu Ddoleri. |
| **Oriau Agor** | **Mynediad** |
| Llun-Sad: 07:00 – 22:00<br>Sul: 08:00 – 22:00 | Mae'r llawr yn wastad wrth fynedfa'r adeilad. |
| **Cyrraedd yno** | |
| Tua 2.1 milltir o Wasanaeth Symudol Caerau, ar hyd tir amrywiol ei natur. Mae modd parcio am gyfnod cyfyngedig y tu allan i'r gangen. Mae trafnidiaeth gyhoeddus ar gael yn y cyffiniau. | |

# Canghennau eraill yn lle Gwasanaeth Symudol Pen-y-waun

| Swyddfa Bost Hirwaun | Gwasanaethau |
|---|---|
| Y Stryd Fawr, Hirwaun<br>Aberdâr<br>Morgannwg Ganol<br>CF44 9SW | Yn cynnig gwasanaethau tebyg, ynghyd â dewis eang o Arian Teithio, Gwirio ac Anfon Pasbort, Treth Cerbydau, Yswiriant Teithio Ar Gais. |
| **Oriau Agor** | **Mynediad** |
| Llun - Gwen: 09:00 – 17:30<br>Sad: 09:00 – 12:30<br>Sul: Ar Gau | Mae grisiau wrth fynedfa'r adeilad. |

**Cyrraedd yno**

Tua 1.4 milltir o Wasanaeth Symudol Pen-y-waun, ar hyd tir amrywiol ei natur. Mae yna faes parcio â llefydd parcio penodol i bobl anabl tua 180 metr o'r gangen hon. Mae trafnidiaeth gyhoeddus ar gael yn y cyffiniau.

---

| Swyddfa Bost Cwmdâr | Gwasanaethau ar gael |
|---|---|
| 6 Llys Dâr<br>Aberdâr<br>Morgannwg Ganol<br>CF44 8TZ | Yn cynnig yr un gwasanaethau |
| **Opening times** | **Access** |
| Llun - Sad: 07:00 – 22:00<br>Sul: 08:00 – 21:00 | Mae'r llawr yn wastad wrth fynedfa'r adeilad. |

**Getting there**

Tua 1.8 milltir o Wasanaeth Symudol Pen-y-waun, ar hyd tir amrywiol ei natur. Mae modd parcio wrth ymyl y ffordd gerllaw. Mae trafnidiaeth gyhoeddus ar gael yn y cyffiniau.

---

| Manylion am y newid i oriau agor y gwasanaeth Symudol presennol | |
|---|---|
| **Gwasanaeth Symudol Caerau** | **Yn agos i Siop Premier, 8-9 Heol Caerau, Caerau, Maesteg, Morgannwg Ganol, CF34 0PB** |
| **Yr oriau agor presennol**<br>Mawrth: 11:45 – 13:15 | **Yr oriau agor newydd**<br>Mawrth: 11:45 – 12:45 |

| Manylion am y newid i oriau agor y gwasanaeth Symudol presennol | |
|---|---|
| **Gwasanaeth Symudol Pen-y-waun** | **Ger y siopau ar Heol Bryngwyn, Pen-y-waun, Rhondda Cynon Taf, CF44 9HD** |
| **Yr oriau agor presennol**<br>Mawrth: 13:45 - 15:15 | **Yr oriau agor newydd**<br>Mawrth: 14:15 – 15:15 |

**I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol – er enghraifft mewn print bras, sain neu braille, ffoniwch 03452 66 01 15 neu 03457 22 33 55 (ffôn testun).**

**Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ynghylch newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post (detholiad)**

*Mae fersiwn llawn o'r ddogfen hon ar gael ar ein Hyb Ymgynghori - postofficeviews.co.uk*

Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Dilynir yr Egwyddorion a ganlyn wrth gyfathrebu am newidiadau i'ch cangen Swyddfa'r Post leol.

Byddwn yn Hysbysu – pan fyddwn yn rhoi gwybod i gwsmeriaid am newidiadau ynghylch:

Oriau agor
Cau nas cynlluniwyd[1]/ ymyriad a gynlluniwyd i wasanaeth
Ailagor cangen a gaewyd yn yr un safle
Agor cangen newydd nad yw'n ymwneud â chau blaenorol
Lleoliad yn cael ei ddefnyddio gan Swyddfa Bost Symudol mewn cymuned
Masnachfreinio cangen a Reolir yn Uniongyrchol yn ei safle cyfredol lle nad oes unrhyw newidiadau i'r mynediad i fan gwasanaeth Swyddfa'r Post.

Byddwn yn gosod poster yn y gangen (neu gerllaw os yw hynny'n briodol) er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid am y newidiadau uchod, gan geisio rhoi pedair wythnos o rybudd. Efallai na fydd modd rhoi pedair wythnos o rybudd ar gyfer newid nas cynlluniwyd ac, os felly, rhoddwn rybudd cyn gynted ag y medrwn. Ar gyfer pob cau byddwn yn cynnwys manylion am y Swyddfeydd Post agosaf a manylion am ein llinell gymorth / ffôn testun i gwsmeriaid.

Rhoddwn wybod i gynrychiolwyr etholedig lleol sydd yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Aelod Seneddol, Senedd yr Alban, Senedd Cymru, neu Gynulliad Gogledd Iwerddon, Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol, Cynghorwyr Ward, Y Cyngor Cymuned neu'r Cyngor Plwyf, elusennau dethol, Cyngor ar Bopeth lleol, Age UK, Disability Action Gogledd Iwerddon a Rhwydwaith Cymunedau Gwledig Gogledd Iwerddon. Hefyd, anogir yr uchod i rannu pob gwybodaeth â grwpiau a sefydliadau lleol a allai, yn eu barn, fod a diddordeb gweithredol mewn newidiadau i'w Swyddfa Bost leol.

Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Consumer Scotland a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr.
Beth i'w wneud os ydych yn teimlo na ddilynwyd yr Egwyddorion hyn:
Cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda, fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr priodol (Cyngor ar Bopeth, Consumer Scotland neu Gyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon) os nad ydych yn fodlon â'n hateb. Bydd y corff gwarchod yn gwneud asesiad annibynnol i weld a ydym wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymell unrhyw gamau i'w cymryd ynghylch y cwyn.

**Postofficeviews.co.uk**
**Comments@postoffice.co.uk**
**FREEPOST Your Comments**
**Ffoniwch: 03452 66 01 15**
**Ffôn Testun: 03457 22 33 55**

[1] Os nad oedd y cau wedi ei gynllunio, adolygir y gwasanaeth a ddarperir yn yr ardal, ar sail y defnydd cyfredol, modelu ac argaeledd unrhyw wasanaeth neu fodel gwasanaeth addas arall. Gwneir penderfyniad masnachol os ceisir cael gwasanaeth yn lle'r un a gafodd ei gau ac ni fydd yn rhwym wrth ymgynghoriad cyhoeddus.